RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 41/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/07/2017

# Diweddariad ar yr Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Ffigurau allweddol o Don 13

## Adroddiad Diweddaru

### Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, yn cyflwyno system feddal o optio allan mewn perthynas â rhoi organau a meinwe yn dilyn marwolaeth yng Nghymru.

Ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu, ac o'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae angen cael gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, ynghyd â'u hagweddau at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Mae data'n cael eu casglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ffigurau allweddol o don 13 (omnibws mis Mawrth 2017). Bydd adroddiad llawn sy'n cyflwyno canfyddiadau manwl o don 13 a thon 14 (omnibws mis Medi 2017 ) yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017.


Cafodd y gwaith maes ar gyfer ton 13 ei wneud rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017 (1,035 o ymatebwyr). Cynhaliwyd ychydig o gyfweliadau wedi'r dyddiadau hyn. Mae'r arolwg wedi'i lunio i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswylio yng Nghymru ac sy'n 16 oed ac yn hŷn.

## Canfyddiadau allweddol

### 1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu dim iddynt, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau. Yn nhon 12, dywedodd mwy na thri chwarter (76 y cant) yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o newidiadau. Roedd hyn wedi gostwng i 73 y cant yn Nhon 13.

**Ffigur 1: A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau? [a]**





Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,002 (T5 Medi 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,022 (T7 Mawrth 2015); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016), 1,035 (T13 Mawrth 2017).

(a) Yn nhonnau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system gyfredol o roi organau?'; Yn nhonnau 3 i 12, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system gyfredol o roi organau?'.

## 2. Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i bob un o'r ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol. Yn nhon 12, dywedodd mwy na phedwar o bob pump o'r ymatebwyr (83 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Roedd hyn wedi gostwng i 81 y cant yn nhon 13.

**Ffigur 2: Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn?** [a]
*(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)*





Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,002 (T5 Medi 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,022 (T7 Mawrth 2015); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016), 1,035 (T13 Mawrth 2017).

(a) Yn nhonnau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?'

### 3. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ‘A ydych erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl ichi farw?’. Yn nhon 12, dywedodd 48 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu. Roedd hyn wedi cynyddu i 51 y cant yn nhon 13.

**Ffigur 3: Cyfran yr ymatebwyr a oedd erioed wedi trafod ag aelod o'r teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl iddynt farw**




Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016), 1,035 (T13 Mawrth 2017).


### 4. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau

Yn nhon 13, gofynnwyd i'r ymatebwyr ‘Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, ac y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?’

Yn flaenorol, yn nhon 12, roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (67 y cant) yn cytuno petai unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, ac y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn; roedd tua un o bob chwech (16 y cant) yn anghytuno â'r datganiad hwn, ac nid oedd 16 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod.

Yn nhon 13, roedd y rheiny a oedd yn cytuno â'r datganiad wedi cynyddu o saith pwynt canran i 74 y cant. Roedd mwy nag un o bob deg yn anghytuno (12 y cant) ac nid oedd 13 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod.

**Ffigur 4: 'Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?'**




Man cychwyn: 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016), 1,035 (T13 Mawrth 2017).

## Y Camau Nesaf

Bydd adroddiad llawn sy'n cyflwyno canfyddiadau manwl o don 13 a thon 14 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017.


**Cyswllt**
Rebecca Cox
0300 025 9378
rebecca.cox@llyw.cymru
Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2017



ISBN 978-1-78859-145-4



© Hawlfraint y Goron 2017

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir yn wahanol